Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 698 (Cy. 96)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

2024 No. 698 (W. 96)

EDUCATION, WALES

The Education (Co-ordination of School Admission Arrangements and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer derbyn i ysgolion.

Yn benodol, mae adran 89B o Ran 3 o Ddeddf 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru lunio cynllun cymhwysol i gydlynu'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn ei ardal. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynllun cymhwysol o'r fath.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ysgolion meithrin a gynhelir nac ysgolion arbennig a gynhelir. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys ychwaith i drefniadau derbyn ar gyfer disgyblion sydd wedi peidio â bod o oedran ysgol gorfodol nac at ddiben cael addysg chweched dosbarth (gweler adran 89B(7) o Ddeddf 1998).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 3 of the School Standards and Framework Act 1998 ("the 1998 Act") makes provision in relation to arrangements for school admissions.

In particular, section 89B of Part 3 of the 1998 Act enables the Welsh Ministers to make regulations requiring a local authority in Wales to formulate a qualifying scheme for co-ordinating the arrangements for the admission of pupils to community, voluntary controlled, voluntary aided and foundation schools in its area. These Regulations make provision in relation to such a qualifying scheme.

These Regulations do not apply to maintained nursery schools or maintained special schools. These Regulations also do not apply to the admission arrangements for pupils who have ceased to be of compulsory school age or for the purpose of receiving sixth form education (see section 89B(7) of the 1998 Act).

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio cynllun cymhwysol ar gyfer ysgolion a gynhelir yn ei ardal. Rhaid i'r cynllun cymhwysol hwnnw gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cynlluniau o'r fath a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn (rheoliad 3).

These Regulations require each local authority in Wales to formulate a qualifying scheme for maintained schools in their area. That qualifying scheme must comply with the requirements for such schemes set out in the Schedule to these Regulations (regulation 3).

Rhaid llunio'r cynllun cymhwysol cyntaf a'i fabwysiadu erbyn 1 Ionawr 2025 ("y cynllun cymhwysol cyntaf") ac erbyn 1 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol (rheoliad 4). Bydd y cynllun cymhwysol cyntaf yn gymwys i drefniadau derbyn yn y flwyddyn academaidd 2027 i 2028.

The first qualifying scheme must be formulated and adopted by 1 January 2025 ("the first qualifying scheme") and by 1 January for all subsequent years (regulation 4). The first qualifying scheme will apply to admission arrangements in the academic year 2027 to 2028.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ymgynghori mewn perthynas â'r cynllun cymhwysol, ac mewn cysylltiad â'i fabwysiadu. Mae adran 85A o Ddeddf 1998 yn darparu bod rhaid i awdurdodau derbyn, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â threfniadau derbyn, roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan fforwm derbyn a sefydlwyd o dan yr adran honno mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny.

Regulation 4 of these Regulations also makes provision in respect of consultation in relation to, and adoption of, the qualifying scheme. Section 85A of the 1998 Act provides that in carrying out their functions in relation to admission arrangements, admission authorities must have regard to any relevant advice given to them by an admission forum established under that section in respect of those functions.

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi gwybod i Weinidogion Cymru a yw wedi mabwysiadu cynllun cymhwysol ai peidio erbyn 28 Chwefror yn y flwyddyn academaidd sydd 2 flynedd cyn y flwyddyn academaidd y derbynnir disgyblion ynddi o dan y cynllun. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i awdurdodau lleol o 28 Chwefror 2025 (mewn cysylltiad â derbyn disgyblion yn y flwyddyn academaidd 2027 i 2028) a phob blwyddyn academaidd ddilynol (rheoliad 5).

Each local authority in Wales must inform the Welsh Ministers whether or not it has adopted a qualifying scheme by 28 February in the academic year 2 years before the academic year in which pupils will be admitted under the scheme. This duty applies to local authorities from 28 February 2025 (in respect of admission in the academic year 2027 to 2028) and all subsequent academic years (regulation 5).

Mae adran 89B(2) o Ddeddf 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ("cynllun Gweinidogion Cymru") a'i osod. Mae adran 89B(3) o Ddeddf 1998 yn darparu na chaniateir gwneud cynllun Gweinidogion Cymru os bodlonir yr amgylchiadau a nodir yn yr is-adran honno erbyn dyddiad sydd i'w ragnodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r dyddiad rhagnodedig wedi ei nodi yn rheoliad 5, a 28 Chwefror ydyw.

Section 89B(2) of the 1998 Act enables the Welsh Ministers to make and impose a scheme for the co-ordination of admission arrangements ("Welsh Minister scheme"). Section 89B(3) of the 1998 Act provides that a Welsh Minister scheme may not be made if the circumstances set out in that subsection are met by a date to be prescribed by the Welsh Ministers. The prescribed date is set out in regulation 5, and is 28 February.

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyfleu i rieni ei benderfyniad i gynnig neu wrthod derbyn disgybl i ysgol gynradd neu uwchradd ar y dyddiad a nodir yn rheoliad 6 (rheoliad 6).

Each local authority in Wales must communicate to parents its determination to offer or to refuse admission of a pupil to a primary or secondary school on the date set out in regulation 6 (regulation 6).

Mae'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso'r pwerau ymyrryd yn Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir) i'r rhwymedigaethau a osodir ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol o dan gynllun cymhwysol (rheoliad 7).

These Regulations apply the powers of intervention in Part 2 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (intervention in the conduct of maintained schools) to the obligations imposed on governing bodies and local authorities under a qualifying scheme (regulation 7).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cywiro camgymeriad yn rheoliad 3 a rheoliad 5 o Reoliadau 2005 (rheoliad 8).

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd 5A yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth mewn perthynas â chynllun cymhwysol awdurdod lleol neu gynllun Gweinidogion Cymru yn cael ei chynnwys ym mhrosbectws ysgolion yr awdurdod lleol (rheoliad 9). Mae paragraff newydd 5A yn gymwys i'r flwyddyn dderbyn ysgol 2026 i 2027 ac felly bydd yr wybodaeth a ragnodir ganddo yn cael ei chynnwys ym mhrosbectws ysgolion yr awdurdod lleol am y tro cyntaf ar gyfer y flwyddyn dderbyn ysgol 2026 i 2027 (gweler rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011 am y diffiniad o "blwyddyn dderbyn ysgol").

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

These Regulations amend the Education (Admission Appeals Arrangements) (Wales) Regulations 2005 ("the 2005 Regulations") so as to correct a mistake in regulation 3 and regulation 5 of the 2005 Regulations (regulation 8).

These Regulations insert a new paragraph 5A into Part 1 of Schedule 2 to the School Information (Wales) Regulations 2011 ("the 2011 Regulations") so as to require that information in relation to a local authority's qualifying scheme or a Welsh Minister scheme be included in the local authority school prospectus (regulation 9). The new paragraph 5A applies to the admission school year 2026 to 2027 and so the information prescribed by it will be included in the local authority school prospectus for the first time for the admission school year 2026 to 2027 (see regulation 2(1) of the 2011 Regulations for the definition of "admission school year").

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Education Business Planning and Governance Division of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2024 Rhif 698 (Cy. 96)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Gwnaed		*24 Mai 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru		*29 Mai 2024*
Yn dod i rym		*28 Mehefin 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 89B(1), (4) a (5)(**1**), 89C(1), (2), (3), (4) a (5)(**2**), 92(**3**), 94(5) a (5A)(**4**), 95(3) a (3A)(**5**) a 138(7)(**6**) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**), ac a

(**1**) 1998 p. 31; mewnosodwyd adran 89B gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), adran 48 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), Atodlen 1, paragraffau 53, 59(1), (2), (3)(a) a (b), (4)(a) a (b), (5)(a) i (c), (6)(a) a (b) a (7) ac O.S. 2010/1158.

(**2**) Mewnosodwyd adran 89C gan Ddeddf Addysg 2002, adran 48 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), adran 43(3)(a) a (b), Deddf Addysg a Sgiliau 2008, Atodlen 1, paragraffau 53, 60(1), (3)(a) a (b), (4) a (5), Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), Atodlen 5, paragraff 4(1) a (5) ac O.S. 2010/1158; mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Amnewidiwyd adran 92 gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 4, paragraff 7 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**4**) Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 94, a mewnosodwyd is-adran (5A) yn adran 94, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 50 a diwygiwyd is-adran (5A) gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008, adran 152(1) a (7).

(**5**) Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 95, a mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 95, gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 4, paragraff 9 a diwygiwyd is-adran (3A) gan O.S. 2010/1158.

(**6**) Diwygiwyd is-adran (7) gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 17, paragraff 3(1) a (4).

(**7**) Gweler adran 142(1) o Ddeddf 1998 am y diffiniad o "the Assembly" a gweler adran 90ZA o Ddeddf 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

2024 No. 698 (W. 96)

EDUCATION, WALES

The Education (Co-ordination of School Admission Arrangements and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024

Made	*24 May 2024*
Laid before Senedd Cymru	*29 May 2024*
Coming into force	*28 June 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 89B(1), (4) and (5)(**1**), 89C(1), (2), (3), (4) and (5)(**2**), 92(**3**), 94(5) and (5A)(**4**), 95(3) and (3A)(**5**) and 138(7)(**6**) of the Schools Standards and Framework Act 1998(**7**),

(**1**) 1998 c. 31; section 89B was inserted by the Education Act 2002 (c. 32), section 48 and amended by the Education and Skills Act 2008 (c. 25), Schedule 1, paragraphs 53, 59(1), (2), (3)(a) and (b), (4)(a) and (b), (5)(a) to (c), (6)(a) and (b) and (7) and S.I. 2010/1158.

(**2**) Section 89C was inserted by the Education Act 2002, section 48 and amended by the Education and Inspections Act 2006 (c. 40), section 43(3)(a) and (b), the Education and Skills Act 2008, Schedule 1, paragraphs 53, 60(1), (3)(a) and (b), (4) and (5), the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw 1), Schedule 5, paragraph 4(1) and (5) and S.I. 2010/1158; there are other amendments but none are relevant to these Regulations.

(**3**) Section 92 was substituted by the Education Act 2002, Schedule 4, paragraph 7 and amended by S.I. 2010/1158.

(**4**) Subsection (5) of section 94 was substituted, and subsection (5A) was inserted into section 94, by the Education Act 2002, section 50 and subsection (5A) was amended by the Education and Skills Act 2008, section 152(1) and (7).

(**5**) Subsection (3) of section 95 was substituted, and subsection (3A) was inserted into section 95, by the Education Act 2002, Schedule 4, paragraph 9 and subsection (3A) was amended by S.I. 2010/1158.

(**6**) Subsection (7) was amended by the Education and Inspections Act 2006, Schedule 17, paragraph 3(1) and (4).

(**7**) See section 142(1) of the 1998 Act for the definition of "the Assembly" and see section 90ZA of the 1998 Act for the definition of "prescribed" and "regulations".

freiniwyd bellach ynddynt hwy(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Mehefin 2024.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod derbyn" yr ystyr a roddir i "admission authority" yn adran 88(1) o Ddeddf 1998(**2**);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir yng Nghymru a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i "blwyddyn academaidd" yr ystyr a roddir i "academic year" yn adran 89B(6) o Ddeddf 1998;

ystyr "blwyddyn benderfynu" ("*determination year*"), mewn perthynas â'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer ysgol, yw'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau 2 flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn academaidd y mae'r trefniadau derbyn yn berthnasol iddi;

ystyr "blwyddyn dderbyn" ("*admission year*") yw'r flwyddyn academaidd y derbynnir disgyblion i grŵp oedran perthnasol o dan gynllun cymhwysol neu gynllun Gweinidogion Cymru;

ystyr "blwyddyn gynnig" ("*offer year*") yw'r flwyddyn academaidd sy'n union cyn y flwyddyn dderbyn;

ystyr "cais" ("*application*"), mewn perthynas â threfniadau a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 86(1) o Ddeddf 1998(**3**), yw mynegiad rhiant, mewn ffurflen gais gyffredin, o'i hoff ddewis o ran ym mha ysgol a gynhelir y mae'r rhiant hwnnw'n dymuno i addysg gael ei darparu i'w blentyn;

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn o Ddeddf Addysg 1996 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), Atodlen 11, paragraff 30.

(**2**) Diwygiwyd adran 88(1) gan O.S. 2010/1158; mae diwygiadau eraill i adran 88 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Diwygiwyd is-adran (1) gan O.S. 2010/1158.

and now vested in them(**1**), make the following Regulations.

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Co-ordination of School Admission Arrangements and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 28 June 2024.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

"academic year" ("*blwyddyn academaidd*") has the meaning given in section 89B(6) of the 1998 Act;

"admission arrangements" ("*trefniadau derbyn*") has the meaning given in section 88(2) of the 1998 Act(**2**);

"admission authority" ("*awdurdod derbyn*") has the meaning given in section 88(1) of the 1998 Act(**3**);

"admission year" ("*blwyddyn dderbyn*") means the academic year during which pupils are admitted to a relevant age group under a qualifying scheme or a Welsh Minister scheme;

"application" ("*cais*"), in relation to arrangements made by a local authority under section 86(1) of the 1998(**4**) Act, means a parent's expression of preference in a common application form as to the maintained school at which that parent wishes education to be provided for their child;

"child" ("*plentyn*") has the meaning given in section 84(6) of the 1998 Act(**5**);

(**1**) The functions of the Secretary of State under these sections of the Education Act 1996 and the School Standards and Framework Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c. 32), Schedule 11, paragraph 30.

(**2**) Section 88(2) was amended by the Education Act 2011 (c. 21), section 64(1) and (2)(c).

(**3**) Section 88(1) was amended by S.I. 2010/1158; there are other amendments to section 88 but none are relevant to these Regulations.

(**4**) Subsection (1) was amended by S.I. 2010/1158.

(**5**) The definition of "child" was substituted by the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), section 43(1) and (2).

mae i "corff llywodraethu" yr ystyr a roddir i "governing body" yn adran 19(1) o Ddeddf Addysg 2002(**1**);

ystyr "cynllun cymhwysol" ("*qualifying scheme*") yw cynllun sydd wedi ei lunio gan awdurdod lleol i gydlynu trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yn ei ardal o dan adran 89B(1)(a) o Ddeddf 1998 a'r Rheoliadau hyn;

ystyr "cynllun Gweinidogion Cymru" ("*Welsh Minister scheme*") yw cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn a osodir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran 89B(2) o Ddeddf 1998;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);

mae i "dyddiad cynnig" ("*offer date*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

ystyr "ffurflen gais gyffredin" ("*common application form*") yw ffurflen a ddarperir gan awdurdod lleol i'w chwblhau gan riant mewn cysylltiad â chais gan y rhiant hwnnw;

mae i "grŵp oedran perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant age group" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998(**4**);

mae i "plentyn" yr ystyr a roddir i "child" yn adran 84(6) o Ddeddf 1998(**5**);

ystyr "prosbectws cyfansawdd" ("*composite prospectus*") yw'r prosbectws cyfansawdd y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei gyhoeddi o dan reoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**6**);

"common application form" ("*ffurflen gais gyffredin*") means a form provided by a local authority for completion by a parent in respect of an application by that parent;

"composite prospectus" ("*prosbectws cyfansawdd*") means the composite prospectus that a local authority is required to publish under regulation 4 of the School Information (Wales) Regulations 2011(**1**);

"determination year" ("*blwyddyn benderfynu*") in relation to the proposed admission arrangements for a school, means the academic year beginning 2 academic years before the academic year to which the admission arrangements relate;

"governing body" ("*corff llywodraethu*") has the meaning given in section 19(1) of the Education Act 2002(**2**);

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a county council in Wales and a county borough council in Wales;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") has the meaning given in section 84(6) of the 1998 Act;

"offer date" ("*dyddiad cynnig*") has the meaning given in regulation 6;

"offer year" ("*blwyddyn gynnig*") means the academic year immediately preceding the admission year;

"parent" ("*rhiant*") has the meaning given in section 576 of the 1996 Act(**3**);

"primary school" ("*ysgol gynradd*") has the meaning given in section 5(1) of the 1996 Act(**4**);

"pupil" ("*disgybl*") has the meaning given in section 3 of the 1996 Act(**5**);

"qualifying scheme" ("*cynllun cymhwysol*") means a scheme formulated by a local authority for co-ordinating arrangements for the admission of pupils to maintained schools in its area under section 89B(1)(a) of the 1998 Act and these Regulations;

(**1**) 2002 p. 32; mae diwygiadau i adran 19 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), paragraff 9 o Atodlen 7, a Deddf Addysg 2002, paragraff 34(1) i (3) o Atodlen 21.
(**3**) 1971 p. 80; mae diwygiadau ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) 1998 p. 31; mae diwygiadau ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) Amnewidiwyd y diffiniad o "child" gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 43(1) a (2).
(**6**) O.S. 2011/1944 (Cy. 211); mae diwygiadau ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2011/1944 (W. 211); there are amendments but none are relevant to these Regulations.
(**2**) 2002 c. 32; there are amendments to section 19 but none are relevant to these Regulations.
(**3**) Section 576 was amended by the School Standards and Framework Act 1998, Schedule 30, paragraph 180, and Schedule 31.
(**4**) Subsection (1) was amended by the Education Act 2002, Part 3 of Schedule 22.
(**5**) Section 3 was amended by the Education Act 1997 (c. 44), paragraph 9 of Schedule 7, and the Education Act 2002, Schedule 21, paragraph 34(1) to (3).

mae i "rhiant" yr ystyr a roddir i "parent" yn adran 576 o Ddeddf 1996(**1**);

mae i "trefniadau derbyn" yr ystyr a roddir i "admission arrangements" yn adran 88(2) o Ddeddf 1998(**2**);

mae i "ysgol a gynhelir" yr ystyr a roddir i "maintained school" yn adran 84(6) o Ddeddf 1998;

mae i "ysgol gynradd" yr ystyr a roddir i "primary school" yn adran 5(1) o Ddeddf 1996(**3**);

mae i "ysgol uwchradd" yr ystyr a roddir i "secondary school" yn adran 5(2) o Ddeddf 1996.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cais wedi ei wneud yng nghwrs cylch derbyn arferol—

(a) os yw'n gais i ddisgybl gael ei dderbyn i grŵp oedran perthnasol, a

(b) os nad yw'n gais hwyr nac yn gais a wneir yn ystod y flwyddyn.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cais yn gais hwyr—

(a) os yw'n gais i ddisgybl gael ei dderbyn i grŵp oedran perthnasol,

(b) os cyflwynir y cais cyn diwrnod cyntaf tymor ysgol cyntaf y flwyddyn dderbyn,

(c) os cyflwynir y cais ar ôl y dyddiad a nodir yn y prosbectws cyfansawdd ar gyfer cael ceisiadau i dderbyn disgybl i ysgol a gynhelir, a

(d) os nad yw penderfyniad sy'n ymwneud â'r cais yn cael ei wneud gan awdurdod derbyn ar y dyddiad cynnig neu cyn hynny.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae cais yn gais a wneir yn ystod y flwyddyn—

(a) os yw'n gais i ddisgybl gael ei dderbyn i grŵp oedran perthnasol ac os yw wedi ei gyflwyno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn dderbyn neu ar ôl hynny, neu

(b) os yw'n gais i ddisgybl gael ei dderbyn i grŵp oedran heblaw grŵp oedran perthnasol.

(**1**) Diwygiwyd adran 576 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 180 ac Atodlen 31.
(**2**) Diwygiwyd adran 88(2) gan Ddeddf Addysg 2011 (p. 21), adran 64(1) a (2)(c).
(**3**) Diwygiwyd is-adran (1) gan Ddeddf Addysg 2002, Rhan 3 o Atodlen 22.

"relevant age group" ("*grŵp oedran perthnasol*") has the meaning given in section 142(1) of the 1998 Act(**1**);

"secondary school" ("*ysgol uwchradd*") has the meaning given in section 5(2) of the 1996 Act;

"Welsh Minister scheme" ("*cynllun Gweinidogion Cymru*") means a scheme for the co-ordination of admission arrangements imposed by the Welsh Ministers under subsection 89B(2) of the 1998 Act;

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, a Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(**2**).

(2) For the purposes of these Regulations an application is made in the course of a normal admission round if—

(a) it is for the admission of a pupil to a relevant age group, and

(b) it is not a late application or an in-year application.

(3) For the purposes of these Regulations an application is a late application if—

(a) it is for the admission of a pupil to a relevant age group,

(b) it is submitted before the first day of the first school term of the admission year,

(c) it is submitted after the date set out in the composite prospectus for the receipt of applications for admission of a pupil to a maintained school, and

(d) a determination relating to the application is not made by an admissions authority on or before the offer date.

(4) For the purposes of these Regulations an application is an in-year application if—

(a) it is for the admission of a pupil to a relevant age group and it is submitted on or after the first day of the admission year, or

(b) it is for the admission of a pupil to an age group other than a relevant age group.

(**1**) 1998 c. 31; there are amendments but none are relevant to these Regulations.
(**2**) 1971 c. 80; there are amendments but none are relevant to these Regulations.

Llunio cynlluniau cymhwysol

3.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol, mewn perthynas â'r flwyddyn benderfynu 2025 i 2026, ac mewn perthynas â phob blwyddyn benderfynu ddilynol, lunio cynllun cymhwysol mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir yn ei ardal.

(2) Rhaid i gynllun cymhwysol gydymffurfio â'r gofynion yn yr Atodlen.

Y camau i'w cymryd gan awdurdod lleol i sicrhau bod cynllun cymhwysol yn cael ei fabwysiadu

4.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol fabwysiadu cynllun cymhwysol yn ymwneud â'r flwyddyn benderfynu 2025 i 2026 erbyn 1 Ionawr 2025 ac wedi hynny erbyn 1 Ionawr cyn pob blwyddyn benderfynu y mae'r cynllun cymhwysol yn perthyn iddi.

(2) Cyn mabwysiadu cynllun cymhwysol, os yw'r amodau a nodir ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r cyrff a nodir ym mharagraff (4).

(3) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

(a) bod y cynllun cymhwysol yn sylweddol wahanol i'r cynllun cymhwysol a fabwysiadwyd ar gyfer y flwyddyn benderfynu cyn hynny, neu

(b) nad yw'r awdurdod lleol, yn y 6 blwyddyn benderfynu flaenorol, wedi ymgynghori ar gynllun cymhwysol y mae wedi ei fabwysiadu.

(4) Ymgynghorer â'r cyrff a ganlyn—

(a) y fforwm derbyn,

(b) pob corff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol, ac

(c) unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod lleol yn meddwl bod y cynllun cymhwysol yn debygol o effeithio arno.

(5) Rhaid i'r ymgynghoriad o dan baragraff (4)(c) gael ei gynnal gyda'r bwriad o sicrhau bod y trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol yn gydnaws â'i gilydd, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(6) Wedi i'r awdurdod lleol gynnal unrhyw ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo—

(a) penderfynu'r cynllun cymhwysol—

(i) ar ei ffurf wreiddiol, neu

Formulation of qualifying schemes

3.—(1) Each local authority must formulate, in relation to the determination year 2025 to 2026, and in relation to each subsequent determination year, a qualifying scheme in relation to each maintained school in its area.

(2) A qualifying scheme must comply with the requirements in the Schedule.

Action to be taken by a local authority to secure adoption of a qualifying scheme

4.—(1) Each local authority must adopt a qualifying scheme relating to the determination year 2025 to 2026 by 1 January 2025 and subsequently by 1 January preceding each determination year to which the qualifying scheme relates.

(2) Before adopting a qualifying scheme, if the conditions set out in paragraph (3) are fulfilled, a local authority must consult the bodies set out in paragraph (4).

(3) The conditions referred to in paragraph (2) are—

(a) the qualifying scheme is substantially different from the qualifying scheme adopted for the preceding determination year, or

(b) the local authority has not, in the previous 6 determination years, consulted on a qualifying scheme which it has adopted.

(4) The bodies to be consulted are—

(a) the admission forum,

(b) each governing body which is the admission authority for a maintained school in the local authority's area, and

(c) any other local authority that the local authority thinks is likely to be affected by the qualifying scheme.

(5) The consultation carried out under paragraph (4)(c) must be undertaken with a view to securing that the arrangements for the admission of pupils to maintained schools in the areas of different local authorities are, so far as is reasonably practicable, compatible with each other.

(6) After the local authority has carried out any consultation required under this regulation it must—

(a) determine the qualifying scheme—

(i) in its original form, or

(ii) gydag unrhyw addasiadau y mae'r awdurdod lleol yn meddwl eu bod yn addas, a

(b) mabwysiadu'r cynllun cymhwysol a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu gan bob corff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn yr ymgynghorodd yr awdurdod lleol ag ef mewn perthynas â'r cynllun.

(7) Yn y rheoliad hwn ystyr "fforwm derbyn" yw corff a sefydlwyd gan awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer ysgolion a gynhelir yn ei ardal o dan adran 85A o Ddeddf 1998(**1**).

Yr wybodaeth i'w darparu i Weinidogion Cymru

5. Ar gyfer y flwyddyn dderbyn 2027 i 2028 a phob blwyddyn dderbyn ddilynol, rhaid i bob awdurdod lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru ar 28 Chwefror neu cyn hynny yn y flwyddyn benderfynu berthnasol a yw wedi mabwysiadu cynllun cymhwysol ai peidio.

Y dyddiad cynnig

6.—(1) Y dyddiad unigol ym mhob blwyddyn pryd y mae rhaid cyfleu i riant benderfyniad, a wneir o dan ddarpariaethau cynllun cymhwysol neu gynllun Gweinidogion Cymru, i gynnig neu wrthod derbyn disgybl i ysgol a gynhelir—

(a) ar gyfer ysgolion cynradd, yw 16 Ebrill yn y flwyddyn gynnig, a

(b) ar gyfer ysgolion uwchradd, yw 1 Mawrth yn y flwyddyn gynnig.

(2) Pan nad yw'r dyddiad cynnig mewn unrhyw flwyddyn gynnig yn ddiwrnod gwaith, y dyddiad cynnig yw'r diwrnod gwaith nesaf.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn ond yn gymwys i benderfyniadau a wneir yng nghwrs cylch derbyn arferol.

Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

7.—(1) Mae Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") i fod yn gymwys fel pe bai unrhyw rwymedigaethau a osodir ar gorff llywodraethu o dan gynllun cymhwysol neu gynllun Gweinidogion Cymru yn cael eu gosod arno gan y Deddfau Addysg.

(**1**) Mewnosodwyd adran 85A gan adran 46 o Ddeddf Addysg 2002 ac fe'i diwygiwyd gan adran 41(1), (2)(a) a (b), (3), (4)(a) a (b), (5) a (6) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac Atodlen 18 iddi, adran 34(1), (2)(a)(i) i (iii), a (2)(b) i (e) o Ddeddf Addysg 2011 a chan O.S. 2010/1158.

(ii) with such modifications as the local authority thinks fit, and

(b) adopt the qualifying scheme and take all reasonable steps to secure its adoption by each governing body which is an admission authority that the local authority consulted in relation to it.

(7) In this regulation "admission forum" means a body established by a local authority in Wales for maintained schools in its area under section 85A of the 1998 Act(**1**).

